Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Mawrth 29ain, 2020

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid a Dysgwyr ym Mlynyddoedd 10 – 13

Gwybodaeth bellach am Ohiriad Arholiadau Haf 2020

Yn gynharach yr wythnos hon, ysgrifennais atoch ynglŷn â gohiriad arholiadau'r haf hwn, yn effeithio ar ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10-13. Rwyf nawr yn eich diweddaru, am fod CBAC a Chymwysterau Cymru wedi gwneud datganiadau pellach am:

1) Asesiadau di-arholiad a,
2) Trefniadau ar gyfer cyrsiau Uwch Gyfrannol a modiwlau Blwyddyn 10.

1) <u>Asesiadau di-arholiad</u>

Mae CBAC wedi datgan na fydd asesiadau di-arholiad (h.y. gwaith cwrs neu asesiad dan rheolaeth) yn cael eu cymedroli eleni.
https://www.wjec.co.uk/about-us/latest-news/nea-update-for-centres-in-wales-march-2020
Mae pob ysgol wedi cael cyfarwyddiadau ac mae'r pwyntiau allweddol fel a ganlyn.

Cymwysterau TGAU, UG / Safon Uwch, a Thystysgrif Her Sgiliau:

- dylai athrawon gadw a storio asesiadau di-arholiad a dan reolaeth yn ddiogel.
- dylai athrawon gadw cofnod o'r marciau a ddyfarnwyd am waith a gwblhawyd hyd yn hyn, ond nid oes gofyn i ganolfannau fewnbynnu marciau i CBAC. (Bydd unrhyw waith a anfonwyd eisoes at CBAC yn cael ei ddychwelyd yn hwyrach.)
- yr unig asesiadau sydd i'w cymedroli gan CBAC yw'r rhai sydd wedi'u hamserlennu ar 6 Mawrth neu cyn hynny.

Ar gyfer unrhyw gymwysterau eraill (fel Llwybrau, Lefel Mynediad, a chyrsiau Lefel 1/2 a 3):
- dylai'r holl waith cwrs, gwaith asesu dan reolaeth ac arholiad nad yw'n arholiad gael ei gadw gan yr ysgol nes bod gwybodaeth bellach ar gael.

Ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 10, nid yw'r datganiad hwn yn effeithio ar waith cwrs sydd wedi ei gyflawni ym mlwyddyn 10, oherwydd gellir delio ag ef yn y flwyddyn academaidd nesaf fel arfer. Ar gyfer dysgwr UG, ewch ymlaen i ddarllen rhan 2) o'r wybodaeth.

<u>Beth mae hyn yn ei olygu i ddisgyblion Bl 11 a 13?</u>
Y neges allweddol yw y dylai athrawon gadw unrhyw waith sydd eisoes wedi'i gwblhau. **Mae'n bwysig bod disgyblion yn cwrdd â dyddiadau cau cyfredol ar gyfer gwaith, a bod drafftiau'n cael eu danfon yn brydlon trwy e-bost, yn unol â chyfarwyddyd athrawon.** Bydd y gwaith hwnnw'n dystiolaeth gadarn o gyrhaeddiad disgyblion hyd yn hyn ac asesiadau athrawon, os fydd angen.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Ar yr un pryd, ni ddylai disgyblion boeni am / geisio gwella drafftiau ymhellach, gan fod y CBAC yn nodi fod cau ysgolion yn golygu "nad yw dysgwyr mewn sefyllfa i gwblhau gwaith di-arholiad o dan amodau teg". Mae CBAC wedi nodi'n glir y bydd y graddau a gyfrifir eleni yn cael eu hasesu ar ystod o dystiolaeth briodol am gyrhaeddiad disgyblion, nid un darn, na darn sy'n anorffenedig oherwydd digwyddiadau diweddar.

Gall adrannau unigol gynnig eglurhad pellach i chi am bynciau penodol os oes angen trwy e-bost, i sicrhau nad oes unrhyw ddryswch ymhlith disgyblion. Dyma ambell ddarn o gyngor ar gyfer meysydd penodol, lle mae cwestiynau yn barod wedi codi:

Blwyddyn 13 – Celf/Graffeg/Tecstiliau

Yn wahanol i'r mwyafrif o bynciau, ni ellir anfon prosiectau Celf yn electronig. Bydd trefniadau gofalus yn cael eu gwneud i gasglu portffolios a gwaith, fel y gellir storio'r rhain yn yr ysgol. Mae angen i bawb gadw at y dyddiad cau gwreiddiol a osodwyd sef **Ebrill 27ain.** Bydd Mrs Helen Stiff yn e-bostio myfyrwyr gyda chyfarwyddiadau yn fuan iawn, felly gwiriwch eich ebyst yn rheolaidd am y wybodaeth hon.

Bl 11 a Bl 13 Tystysgrif Her Sgiliau

- Nid yw CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau gyflwyno gwaith ar gyfer unrhyw gydrannau o'r Dystysgrif Her Sgiliau.
- Dylai gwaith sydd wedi'i gwblhau ar gyfer cydrannau gael ei gadw a'i storio'n ddiogel gan athrawon/tiwtoriaid.
- Dylai athrawon/tiwtoriaid gadw cofnod o farciau a ddyfarnwyd am waith cydran a gwblhawyd hyd yma.
- Ni fydd y cydrannau yn cael eu cymedroli gan CBAC ar gyfer cyfres Haf 2020. Mae hyn yn golygu nad oes angen cwblhau gwaith sydd heb ei gwblhau.

Yn dilyn y cyhoeddiad gan Cymwysterau Cymru, penderfynwyd bod **rhaid i bawb yrru drafft terfynol eu Prosiect Unigol / Her Menter / Her y Gymuned i'w mentoriaid erbyn Dydd Iau 2il o Ebrill** (sef y dyddiad cau gwreiddiol). Bydd eich drafft yn sail gadarn i amddiffyn eich gradd darogan. Ni fydd rhaid i chi wneud unrhyw addasiadau ar ôl y dyddiad hon.

BTEC -Pynciau Galwedigaethol

Yn dilyn y cyhoeddiadau diweddar ynglŷn ag arholiadau allanol, asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs a dyfarnu graddau ar gyfer Haf 2020, rydym wedi bod yn dilyn y cyfarwyddiadau a chanllawiau a ddaw o'r corff dyfarnu(PearsonEdexcel). Mae disgwyl i'r holl ddisgyblion sy'n dilyn ein cyrsiau galwedigaethol BTEC L1, 2 a 3 barhau i ddilyn cyfarwyddiadau yr athro unigol ac i gyflwyno gwaith yn unol â'r trefniadau a nodwyd gan yr athro e.e Teams, ebost ac ati. Rydym am ddatgan na fydd unrhyw ddisgybl ar ei golled /

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

cholled o ran gradd am unrhyw reswm - byddwn yn seilio y gradd terfynol ar sail gwaith a thystiolaeth a aseswyd yn barod, ac yn ystyried y graddau darogan nodwyd gan yr athrawon yn ystod y flwyddyn. I'r un perwyl, ni fydd cyfle i ddisgybl i godi gradd dros yr wythnosau nesaf - y neges syml yw i gyflawni'r tasgau ac aseiniadau a osodwyd a'u cyflwyno yn y modd priodol. Mae'n bosibl gallwn dderbyn cais am samplau o waith naill a'i yn ystod Tymor yr Haf neu yn yr Hydref felly rhaid i ni sicrhau ansawdd a thryloywder o ran gwaith, safonau a phrosesau. Diolchwn yn enfawr i chi gyd am eich cefnogaeth a dealltwriaeth o'r sefyllfa mwyaf heriol ac unigryw yma.

2) **Trefniadau ar gyfer Uwch Gyfrannol a modiwlau Blwyddyn 10**

Mae CBAC wedi darparu gwybodaeth glir a manwl i ddysgwyr ym Mlwyddyn 12 yn dilyn cyrsiau UG, a'r rhai ym Mlwyddyn 10 a oedd i fod eistedd modiwlau eleni. Cyhoeddwyd y datganiad isod ar 27 Mawrth.

https://www.wjec.co.uk/about-us/latest-news/awarding-of-wjec-as-and-year-10-gcse-specifications-in-wales

Mae Mr Aled James wedi cysylltu gyda myfyrwyr Bl12 drwy ebost yn egluro oblygiadau'r datganiad. Bydd adrannau yn trafod yr opsiynau a gynigwyd gan CBAC dros yr wythnosau nesaf, a bydd athrawon yn eich diweddaru maes o law. **Mae'n debygol iawn fydd adrannau unigol yn rhoi cyngor i ddisgyblion am ba opsiwn fyddai orau yn ôl gofynion y pwnc a lles y dysgwyr yn flaenllaw yn eu penderfyniadau.** Er enghraifft, efallai fyddai'r Adran Saesneg yn penderfynnu 'nad oedd budd i ddisgyblion Blwyddyn 10 sefyll yr arholiad Uned 1 Llenyddiaeth ym mlwyddyn 11 oherwydd gall y dysgwyr lwyddo yn yr arholiad Uned 2 heb fod angen sefyll arholiad Uned 1'. Fe allai adran arall benderfynnu rhoi cyngor hollol wahanol gan fod gofynion y pynciau mor wahanol i'w gilydd. Fodd bynnag yng ngoleuni'r datganiadau diweddar hyn gan CBAC, mae'n debygol y bydd adrannau / athrawon yn gwneud newidiadau i'r rhaglen waith ar gyfer Bl 10 a Bl12 dros y cyfnod nesaf, felly gwiriwch eich ebyst yn rheolaidd.

Dysgwyr Uwch Gyfrannol - Blwyddyn 12

"Nid yw'r UG yn gymwysterau arunig yn ein manylebau CBAC yng Nghymru; maent hefyd yn cyfrannu at gymwysterau Safon Uwch. Fel arfer, bydd unedau UG yn cael eu sefyll ym Mlwyddyn 12 a'r unedau U2 yn cael eu sefyll ym Mlwyddyn 13. Efallai y bydd rhai dysgwyr yn sefyll cymwysterau UG yn unig heb symud ymlaen i'r Safon Uwch. Gan na chynhelir arholiadau'r haf hwn, deallwn y bydd goblygiadau i'r dysgwyr hynny sy'n cofrestru am gymwysterau UG arunig ac i'r rheiny sy'n sefyll eu hunedau UG eleni yn barod i symud ymlaen at y Safon Uwch lawn y flwyddyn nesaf. Rydym yn falch o'ch hysbysu ein bod wedi dod i gytundeb â Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru i weithredu fel a ganlyn o ran cymwysterau CBAC.

• Ni fydd gofyn i'r dysgwyr hynny oedd i fod i sefyll eu harholiadau UG yr haf hwn sefyll yr arholiadau hynny bellach.
• Dyfernir cymhwyster i ddysgwyr UG ar sail debyg i'r dysgwyr hynny oedd i fod i sefyll arholiadau TGAU a

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Safon Uwch yr haf hwn.

• Bydd dysgwyr UG yn derbyn gradd UG derfynol gan CBAC yr haf hwn. Seilir y radd hon ar amrediad o dystiolaeth, yn cynnwys graddau wedi'u hasesu gan athrawon.

• Ni fydd y radd UG a ddyfernir i ddysgwyr yr haf hwn yn cyfrannu at eu canlyniadau Safon Uwch yn 2021.

Yn haf 2021, caiff dysgwyr ddau ddewis o ran eu cymwysterau Safon Uwch, sef, naill ai:

1. sefyll eu hunedau U2 yn unig, a'r radd i'w dyfarnu yn seiliedig ar eu perfformiad yn yr unedau hynny'n unig (a ddefnyddir i gyfrifo marciau ar gyfer eu hunedau UG)
   neu
2. sefyll unedau UG ac U2, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
   Os bydd dysgwyr yn penderfynu mynd am yr ail ddewis (opsiwn 2), byddwn hefyd yn ystyried y radd a fyddai wedi'i dyfarnu iddynt pe byddent wedi dewis opsiwn 1. Y radd derfynol a dderbynnir ganddynt fydd y radd orau i'w dyfarnu o'r naill opsiwn a'r llall".

   <u>Tystysgrif Her Sgiliau Uwch</u>

   Yn ôl y wybodaeth bresennol mae'n bwysig bod dysgwyr ym Mlwyddyn 12 yn parhau i weithio ar eu projectau Menter ac unrhyw dasgau eraill a osodir gan yr athrawon dros y cyfnod nesaf gan nad yw hyn yn cael ei effeithio gan y cyhoeddiad am y cymhwyster UG. Yr unig newid a ddiswgylir yw bydd gwaith yr Her Dinasyddiaeth yn cael ei safoni nawr yn Ionawr 2021 yn hytrach na'r haf, 2020. Rydym yn dal yn disgwyl i gael cadarnhad terfynol am y Tystysgrif Her Sgiliau.

Dysgwyr TGAU Blwyddyn 10

"Yn achos dysgwyr ym Mlwyddyn 10 oedd i fod i sefyll unedau'n unig, yn hytrach na chwblhau cymhwyster TGAU cyflawn yr haf hwn, ni chyhoeddir canlyniadau uned gennym. Bydd dau ddewis ar gael i'r dysgwyr hynny sef, naill ai:

1. sefyll yr unedau Blwyddyn 11 yn haf 2021, a chael cyfrifo eu gradd TGAU gyffredinol derfynol ar sail eu perfformiad yn yr unedau hynny
   neu
   2. sefyll yr unedau Blwyddyn 10 yn haf 2021, ynghyd â'u hunedau Blwyddyn 11.
   Os bydd dysgwyr yn penderfynu mynd am yr ail ddewis (opsiwn 2), byddwn hefyd yn ystyried y radd a fyddai wedi'i dyfarnu iddynt pe byddent wedi dewis opsiwn 1. Y radd derfynol a dderbynnir ganddynt fydd y radd orau i'w dyfarnu o'r naill opsiwn a'r llall.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Yn achos dysgwyr ym Mlwyddyn 10 oedd i fod i sefyll unedau i gwblhau eu cymhwyster TGAU yr haf hwn, byddant yn derbyn gradd ar sail yr un broses a amlinellwyd yr wythnos diwethaf ar gyfer dysgwyr TGAU Blwyddyn 11".

Gobeithio bod y wybodaeth hon yn cynnig eglurder am gyhoeddiadau CBAC a Chymwysterau Cymru, ac yn tawelu ofnau dysgwyr y bydd yna dyfarnu teg.

Yn bwysicaf oll, gobeithio eich bod chi a'ch teuluoedd yn ddiogel ac yn iach. Os ydych yn ymwybodol am unrhyw aelod o gymuned yr ysgol sydd angen ein cefnogaeth fel ysgol, plîs gadewch i ni wybod trwy post@ysgolplasmawr.cymru

Dymuniadau gorau a chofion cynnes

John Hayes
Pennaeth